**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**11 Mawrth 2022**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Diweddariad cynnydd |
| AWDUR: | Aggie Caesar-Homden, Rheolwr y Bartneriaeth.<br>Aggie.caesar-homden@powys.gov.uk |

## 1. Diben yr Adroddiad

1.1. Rhoi diweddariad i Aelodau Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru am gynnydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y Canolbarth (y Bartneriaeth).

## 2. Cyflwyniad

2.1. Ers yr adroddiad diwethaf, mae'r Bartneriaeth yn parhau i wneud cynnydd da o ran gweithio gydag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth i ddeall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad lafur, er mwyn sbarduno buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu.

2.2. Mae Bwrdd y Bartneriaeth wedi canolbwyntio ar y meysydd gwaith allweddol sydd eu hangen, er mwyn darparu rhaglen waith glir i'w dilyn, gan gynnwys meysydd allweddol strwythur, adnabod anghenion, adeiladu partneriaethau a chynllunio yn y dyfodol. Mae Rheolwr y Bartneriaeth yn parhau i weithio'n agos gyda'n Prif Swyddogion Rhanbarthol a rhanddeiliaid rhanbarthol i gefnogi Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a pharhau i feithrin ymwybyddiaeth o faterion trawsffiniol.

## 3. Recriwtio

3.1. Yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus, penodwyd Swyddog Ymgysylltu â Chyflogwyr y Bartneriaeth a dechreuodd yn ei swydd ar 6 Rhagfyr 2021.

## 4. Sefydlu sylfeini Arsyllfa Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur yn cael ei darparu, sy'n cyd-fynd â gwybodaeth economaidd a gwybodaeth am gyflogwyr.

4.1. Mae Rheolwr y Bartneriaeth wedi bod yn gweithio gyda Data Cymru i sefydlu Arsyllfa Sgiliau'r Canolbarth a darparu cymorth dadansoddi data.

4.2. Mae Data Cymru wedi darparu trwyddedau Pecyn Cymorth Dadansoddwyr EMSI i dîm y Bartneriaeth i ategu Gwybodaeth am y Farchnad Lafur leol a chenedlaethol. Mae EMSI wedi darparu hyfforddiant i dimau'r Bartneriaeth.

4.3. Mae Rheolwr y Bartneriaeth yn parhau i weithio gyda Data Cymru i ddatblygu gwefan y Bartneriaeth. Bydd hyn yn dwyn ynghyd wybodaeth am waith a blaenoriaethau'r Bartneriaeth, gwybodaeth y Bwrdd, cysylltiadau data am sgiliau a dogfennau polisi mewn system rheoli cynnwys fodern.

4.4. Mae Data Cymru yn parhau i ddarparu cymorth ychwanegol ar ffurf dadansoddi data gan ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur i nodi tueddiadau economaidd a deall bylchau a phrinder sgiliau ar draws y rhanbarth yn ogystal â chefnogi'r Bartneriaeth i ddatblygu adroddiadau Covid-19 i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 5. Adroddiad Sgiliau Gwyrdd.

5.1. Yn ogystal â'r uchod, mae Data Cymru yn gweithio gyda phedwar Rheolwr y Bartneriaeth i ddatblygu Adroddiad Sgiliau Gwyrdd i'w rannu â Llywodraeth Cymru. Mae rhai diwygiadau pellach yn cael eu gwneud a rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gymeradwyo ym mis Chwefror. Mae'n bwysig bod yr adroddiad yn gadarn oherwydd bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio fel sail ar gyfer Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net a gyhoeddir yn y gwanwyn.

## 6. Adrodd am Covid - 19.

6.1. Cyflwynwyd yr adroddiad chwarterol i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Hydref. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd canfyddiadau allweddol pob un o'r adroddiadau ac yn briffio Gweinidogion.

6.2. Wrth symud ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am adroddiad terfynol ar Covid 19 a ddylai fod yn grynodeb o'r canfyddiadau dros y pandemig a dylai daflu goleuni ar sut mae maes cyflogaeth a sgiliau'r rhanbarth wedi'u newid gan y pandemig. Cyflwynir yr adroddiad hwn ym mis Mawrth/Ebrill 2022.

## 7. Cyflwyniad Adroddiad Dyfarnu Grant y Bartneriaeth.

7.1. Cyflwynodd y Bartneriaeth yr Adroddiad Gweithgarwch Dyfarnu Grant chwarterol i Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i gymeradwyo.

## 8. Cynllun Sgiliau a Chyflogadwyedd a Chynllun Gweithredu.

8.1. Mae'r Bartneriaeth yn parhau i ddarparu persbectif rhanbarthol er mwyn llywio strategaethau sgiliau sector ar lefel genedlaethol ac ar lefel y DU ac er mwyn darparu data sylfaenol ar gyfer cynllunio Addysg Bellach, gan ddefnyddio gwybodaeth a arweinir gan gyflogwyr a data Gwybodaeth am y Farchnad Lafur.

8.2. Mae pedwar Rheolwr y Bartneriaeth yn disgwyl am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru ar ofynion y Cynllun Sgiliau a'r Cynllun Gweithredu newydd a fydd yn nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol sy'n cefnogi swyddi a thwf yn rhanbarth y Canolbarth.

## 9. Gwarant i Bobl Ifanc.

9.1. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ymrwymiad uchelgeisiol i ddarparu Gwarant i Bobl Ifanc, sy'n cynnig cymorth i bawb dan 25 oed i fyd gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth.

9.2. Cafodd y warant ei phennu er mwyn sicrhau nad ydym yn colli cenhedlaeth gyfan ledled Cymru yn sgil y dirywiad economaidd a ragfynegir a'r cynnydd enfawr mewn diweithdra yn sgil Covid a Brexit.

9.3. Ers cyhoeddi'r Rhaglen Lywodraethu, mae'r farchnad swyddi wedi gwella'n llawer cynt na'r disgwyl ac yn ymddangos yn fywiog gyda rhai ardaloedd yn profi mwy o alw na'r cyflenwad. Fodd bynnag, mae gan y Warant rôl bwysig i'w chwarae o hyd o ran helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei nod polisi o greu cenedl decach, wyrddach a mwy ffyniannus. Hefyd, mae angen i'r Warant barhau i ganolbwyntio ar:

- Helpu pobl ifanc i gael swyddi mwy cynaliadwy;
- Sicrhau camau datblygu i'r bobl ifanc yn y swyddi hyn ac a ydym ni bellach yn wynebu cenhedlaeth o dangyflogaeth;
- Cynllunio ar gyfer ail don bosibl o ddiweithdra dros y misoedd nesaf; a
- Diffyg sgiliau neu sgiliau sy’n anghymarus â’r farchnad lafur.

9.4. Crynodeb o'r canlyniadau a'r mesurau:

- Cyflwyno un adroddiad bwrdd gwaith fesul rhanbarth erbyn Gwanwyn 2022 i Lywodraeth Cymru.
- Dau ddigwyddiad fesul rhanbarth sy'n cynnwys rhaglenni a phrosiectau Ionawr 2022 - Gwanwyn 2022.
- Gweithio gyda Cymru'n Gweithio a darparu adroddiad diweddaru i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei hychwanegu at y cyfeiriadur canfod cymorth a'r un lleol.
- Cynhyrchu cyfeiriadur a phecyn canllaw canfod cymorth lleol ar gyfer cynghorwyr lleol i sicrhau bod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o brosiectau a rhaglenni ar gael.
- Cyflwyno cynllun gweithredu mewn perthynas ag unrhyw rwystrau strategol a nodwyd yn ystod eich gwaith i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

9.5. Rydym yn cydnabod bod hwn yn ddarn mawr o waith gyda therfyn amser tynn. Mae Rheolwr y Bartneriaeth yn gweithio gydag uwch-arweinwyr a chydweithwyr ar draws y ddau Awdurdod Lleol i ystyried opsiynau adnoddau i gwblhau'r gwaith hwn.

**10. Aelodaeth y Bwrdd a Sefydlu Grwpiau Clwstwr.**

10.1. Fel y cytunwyd eisoes gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, mae Cadeirydd y Bartneriaeth a Rheolwr y Bartneriaeth yn adolygu aelodaeth bresennol Bwrdd y Bartneriaeth a sefydlu nifer o grwpiau clwstwr.

10.2. Cafwyd trafodaethau manwl gydag aelodau Bwrdd y Bartneriaeth lle ystyriwyd sylwadau, safbwyntiau a barn yr aelodau ar y grwpiau clwstwr. Cytunwyd bod yn rhaid cael angen a ffocws clir ar gyfer unrhyw grŵp clwstwr posibl.

10.3. Mae Rheolwr y Bartneriaeth wedi cwrdd â Rheolwyr Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eraill i ddeall y grwpiau penodol a ddewiswyd ganddynt, y diben a pha mor dda maen nhw'n gweithio. Mae rhai o'r grwpiau clwstwr ar gyfer grwpiau’r Partneriaethau eraill yn cyfarfod yn fisol, eraill yn cyfarfod bob tri mis neu bob 6 wythnos yn dibynnu ar ofynion penodol.

10.4. Yn dilyn yr adolygiad hwn, bydd grwpiau clwstwr cychwynnol yn cael eu sefydlu gyda'r cyfarfodydd cyntaf i’w cynnal ym mis Mawrth:

- Darparwyr hyfforddiant
- Busnesau
- Gwasanaethau cyhoeddus

10.5. Yn ogystal â'r grwpiau clwstwr hyn, bydd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Polisi hefyd yn cael eu sefydlu ar gyfer meysydd penodol o waith Polisi Llywodraeth Cymru.

11. **Rhwydwaith Cyflogadwyedd Strategol Canolbarth Cymru**

11.1. Ffrwyth ymdrech ar y cyd rhwng Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru a Thîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru yw Rhwydwaith Cyflogadwyedd Strategol y Canolbarth. Bydd yn cael ei hwyluso gan y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ar ran y rhanbarth.

11.2. Prif nod y rhwydwaith yw dwyn ynghyd rhanddeiliaid perthnasol yn y rhanbarth sy'n gweithio gyda buddiolwyr 14 oed a throsodd i geisio cymorth cyflogadwyedd 'caled' a 'meddal.

11.3. Bydd y rhwydwaith;

- yn bwynt ffocws rhanbarthol ar gyfer gweithgarwch cyflogadwyedd a newyddion e.e. lledaenu mentrau polisi newydd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU;
- yn rhannu gwybodaeth ranbarthol am fentrau cyflogadwyedd cyfredol er mwyn osgoi dyblygu gwaith a nodi cyfleoedd i gydweithio;
- yn casglu tystiolaeth ranbarthol gan gynnwys mapio'r ddarpariaeth bresennol yn erbyn sefydliadau ac effeithiolrwydd presennol y ddarpariaeth gyflogadwyedd yn y Canolbarth ac yn nodi cyfleoedd i 'wneud pethau'n wahanol’;
- yn darparu barn ranbarthol ar flaenoriaethau a rennir ar gyfer darpariaeth cyflogadwyedd a sgiliau yn y Canolbarth gyda'r nod o ddatblygu perthnasoedd cydweithio pellach a sicrhau bod y rhanbarth yn y sefyllfa orau ar gyfer cyfleoedd ariannu yn y dyfodol;
- yn rhoi barn ranbarthol ar brosiectau cyflogadwyedd a sgiliau sy'n dod i'r amlwg er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried perthnasedd rhanbarthol prosiectau cyflogadwyedd Cymru gyfan.

**12. Goblygiadau cyfreithiol**

12.1. Does dim unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn deillio o’r adroddiad hwn.

**13. Goblygiadau Adnoddau Dynol**

13.1. Does dim unrhyw oblygiadau AD yn deillio o’r adroddiad hwn.

**14. Goblygiadau ariannol**

14.1. Does dim unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o’r adroddiad hwn.

**15. Atodiadau**

15.1. Dim

| | |
|---|---|
| **Adroddiad** | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Diweddariad cynnydd |
| **Awdur** | Aggie Caesar-Homden, Rheolwr y Bartneriaeth Aggie.caesar-homden@powys.gov.uk |
| **Dyddiad** | 18 Chwefror 2022 |